# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer yr Astudiaeth o’r Tueddiadau Rhyngwladol mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth (TIMSS) Cymru 2027

## Y cefndir

Mae astudiaeth TIMSS 2027 yn cael ei threfnu gan y Gymdeithas Ryngwladol Gwerthuso Cyrhaeddiad Addysgol (IEA). Mae astudiaethau fel TIMSS yn dangos i ni sut y mae addysg yng Nghymru yn cymharu â'r addysg mewn gwledydd eraill ledled y byd; beth sy'n llwyddiannus yma yng Nghymru, a lle gallwn ni wneud yn well. Trwy ofyn i benaethiaid, athrawon, rhieni a disgyblion am yr ysgol, yr addysgu, yr agweddau a'r amgylchedd dysgu, gallwn ddeall gwahanol bethau am y ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu a dod o hyd i ffyrdd o wneud ysgolion yn llefydd gwell i bawb.

Mae rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth TIMSS ar gael o [www.pearson.com/timss27cymru](www.pearson.com/timss27cymru)

Llywodraeth Cymru (ac IEA) yw'r rheolwyr data ar gyfer y data personol sy'n cael eu prosesu fel rhan o TIMSS 2027 yng Nghymru. Byddwn yn prosesu'r data yn unol â'n tasg gyhoeddus ac o dan yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Pearson UK, ynghyd â'u hisgontractwyr, sef UCL - IOE (University College London - Institute of Education) a Page Bros Group, yw ein proseswyr data.

## Sut rydym yn defnyddio eich data personol

### Penaethiaid/Athrawon

Rydym yn defnyddio enwau penaethiaid i bersonoli deunyddiau astudio eich ysgol, a chyfeiriad e-bost y pennaeth a'r cydlynydd ysgol i ohebu â chi drwy gydol y prosiect. Efallai y byddwn hefyd yn gohebu â staff eraill yr ysgol i drafod y prosiect e.e. staff cymorth TG

### Disgyblion a Rhieni

Rydym yn defnyddio enwau a dyddiad geni disgyblion yn eich ysgol i ddewis disgyblion ar hap i gymryd rhan yn TIMSS.

Rydym yn cyfuno'r wybodaeth o ganlyniadau'r prawf gyda gwybodaeth arall sydd gennym eisoes. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd yng nghronfa ddata genedlaethol y disgyblion a ddarperir i ni gan eich ysgol, megis presenoldeb (gweler ein prif hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr holl gasglu data statudol yma: Gwybodaeth rheoli data: hysbysiad preifatrwydd | LLYW.CYMRU). Gelwir rhywfaint o'r wybodaeth yr ydym yn gofyn amdani, neu sydd gennym eisoes ac y byddwn yn ei defnyddio yn TIMSS, yn ddata personol sensitif. Mae hyn yn cynnwys enw eich

plentyn, dyddiad geni, rhyw, rhif unigryw'r disgybl, yr ieithoedd y mae eich plentyn yn eu siarad gartref, ac a yw chi, eich plentyn, neu unrhyw riant/gofalwr arall wedi'ch geni yn y Deyrnas Unedig.

Nid ydym yn cyhoeddi atebion unrhyw unigolion i unrhyw gwestiwn, ac ni ellir adnabod plant na'r ysgol o unrhyw adroddiad na chyhoeddiad.

**Beth ydyn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth?**

Ar ôl i chi gymryd rhan yn yr astudiaeth TIMSS, bydd Pearson UK yn anonymeiddio eich data personol (h.y. byddant yn dileu'ch enw ac unrhyw beth arall y gellid ei ddefnyddio i'ch adnabod chi/eich plentyn neu'r ysgol a'i ddisodli gyda chod) a byddant yn ei anfon at sefydliadau mewn gwledydd eraill. Byddant yn rhoi'r data dienw gyda'r data o'r gwledydd eraill (tua 60 o wledydd) sy'n cymryd rhan yn TIMSS.

Mae eich gwybodaeth yn caniatáu inni gyflawni ein tasg gyhoeddus ac wrth arfer ein hawdurdod swyddogol at y dibenion canlynol.

- Dibenion Ymchwil: Deall gallu ym mathemateg a gwyddoniaeth dysgwyr blwyddyn 5 yng Nghymru ac yn rhyngwladol, y ffyrdd y mae myfyrwyr yn dysgu a sut i wneud ysgolion yn well i bawb.
- Dibenion cyhoeddi (mewn modd sy'n sicrhau na ellir adnabod plant a phobl ifanc unigol): Adroddiad cenedlaethol wedi'i gyhoeddi ar wefan llyw.cymru, wedi'i ddatblygu gan isgontractwyr Pearson UK.

Dim ond at ddibenion ystadegau ac ymchwil y byddwn yn defnyddio eich data ym mhob cam o'r broses.

**Â phwy ydyn ni'n rhannu'ch gwybodaeth?**

Ni fyddwn yn rhannu eich data personol gydag unrhyw sefydliadau nad ydynt wedi'u contractio i brosesu eich data ar ein rhan. Efallai y byddwn yn rhannu eich ymatebion TIMSS gyda sefydliadau trydydd parti dibynadwy y mae gennym gytundeb prosesu data â nhw; fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys eich data personol.

**Trosglwyddo i wledydd y tu allan i'r AEE.**

Bydd Pearson UK (ar ein rhan) yn anonymeiddio'r data a'u hanfon at astudiaeth TIMSS 2027 ac at IEA a'u contractwyr. Ni fyddwch yn gallu cael eich adnabod o'r wybodaeth hon.

**Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw data astudiaeth TIMSS 2027 am gyfnod o 10 mylnedd ar ôl diwedd y contract yn 2029.  Bryd hynny bydd y data'n cael eu gwneud yn ddienw, ac yn parhau i gael eu defnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

**Eich hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth**

Mae gennych hawl i'r canlynol:

- i gael gafael ar y data personol rydym yn eu prosesu amdanoch chi;
- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hynny,
- gwrthwynebu prosesu'r data (mewn amgylchiadau penodol);
- mynnu bod eich data'n cael eu 'dileu';
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

**Gwybodaeth gyswllt**

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:


**Y Tîm Safonau, Gwella a Gwybodaeth:**
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru.
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost: SIID.Correspondence@gov.wales
*Dyfynnwch "TIMSS 2027" yn eich e-bost i gael eich cyfeirio at y tîm cywir*

**Y Swyddog Diogelu Data**
Llywodraeth Cymru.
Parc Cathays
Caerdydd
CN10 3NQ
Cyfeiriad e-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru


I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

| **Cyfeiriad** | **Llinell gymorth:** | **Gwefan:** |
|---|---|---|
| Wycliffe House<br>Water Lane<br>Wilmslow<br>Swydd Gaer<br>SK9 5AF | 029 2067 8400 (Llinell Gymorth Cymru); neu 0303 123 1113 (Llinell Gymorth y Deyrnas Unedig) | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |